



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

Datganiad Polisi Datblygu Cynaliadwy

Dyddiad Cymeradwyo:
Cymeradwywyd gan:
Dyddiad Adolygu:

Hyd 2017
Aelodau'r Comisiwn
Hyd 2020

Mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor arweiniol ganolog ar gyfer holl weithgareddau'r Comisiwn mewn perthynas â'i ymrwymiad i dderbyn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys datblygu strategaeth a pholisi, darparu gwasanaeth, gweithio mewn partneriaeth, a'r ffordd y caiff y sefydliad ei redeg. Bydd yr holl weithgareddau yn ystyried set o chwe egwyddor arweiniol i ddarparu cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol:

Byw o fewn Cyfyngiadau Amgylcheddol

Parchu cyfyngiadau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned – gwella ac amddiffyn yr amgylchedd a sicrhau bod yr adnoddau naturiol sydd eu hangen ar gyfer bywyd yn ddiamhariad i genedlaethau'r dyfodol ac yn cael eu defnyddio'n ofalus.

Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach, Ddiogel a Theg

Bodloni anghenion amrywiol yr holl bobl mewn cymunedau presennol ac yn y dyfodol, hyrwyddo lles personol, cydlyniad a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.

Cyflawni Economi Gynaliadwy

Adeiladu economi leol gref, gadarn a chynaliadwy sy'n darparu cyfleoedd i bawb, trwy annog twf lleol a defnydd effeithlon o adnoddau.

Hyrwyddo Llywodraethu Da

Hyrwyddo systemau llywodraethu cyfranogol, effeithiol ar bob lefel o'r gymdeithas – ennyn creadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl ar draws y gymuned. Darparu tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn mewn modd Cyfrifol

Sicrhau y caiff polisi ei ddatblygu a'i roi ar waith ar sail dystiolaeth wyddonol gref, wrth ystyried ansicrwydd gwyddonol (trwy'r egwyddor ragofalus), yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd cyhoeddus.

Polisi Integredig a Thymor Hir

Sicrhau y caiff polisiau a rhaglenni gwaith y Comisiwn eu hintegreiddio, fel bod yr holl strategaethau a pholisiau, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru Gynaliadwy, ac y caiff goblygiadau tymor hir penderfyniadau eu hystyried.